# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
# Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**EBRILL 2025**

Croeso i rifyn mis Ebrill o Fwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Rydym wedi bod yn brysur y mis hwn yn paratoi at y Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth ADUS cyntaf a fydd yn cael ei gynnal ar 20 Mai yn Llandudno. Rydym yn gobeithio gweld nifer ohonoch yno!


Gofynnwn ichi barhau i rannu eich safbwyntiau a'ch adborth ynghylch y bwletinau hyn. Rydym yn gwerthfawrogi pob sylw a ddaw i law.

**ADUSau wedi'u comisiynu**

Mae’r Hwb Cydgysylltu wedi cael 7 hysbysiad ADUS y mis hwn, gan ddod â chyfanswm yr ADUSau sydd wedi'u comisiynu ers 1 Hydref i 21.

Ymarfer Plant: 13
Ymarfer Oedolion: 3
Yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 3
Yn ymwneud ag Ymarfer Oedolion a Cham-drin Domestig: 1
Lladdiad Iechyd Meddwl: 1

## Newyddion




Gyda chymorth Dadansoddwr Plismona yng Nghymru, mae Hwb Cydgysylltu ADUS yn gweithio ar ddatblygu Dangosfwrdd Data ADUS. Bydd y Dangosfwrdd yn caniatáu i ddefnyddwyr gael gafael ar wybodaeth am sawl agwedd ar ADUSau yn gyflym ac yn hawdd, gan gynnwys faint sydd wedi'u comisiynu, eu statws, math o adolygiadau o dan sylw, data ynghylch Adolygwyr a Chadeiryddion a gwybodaeth am argymhellion, gan gynnwys themâu a statws cwblhau. Bydd modd dadansoddi'r cyfan yn ôl rhanbarth ac asiantaeth. Bydd gwaith yn parhau ar y Dangosfwrdd gan geisio sicrhau y bydd ar gael ar dudalen we ADUS yn y dyfodol agos.

## Newyddion da

Mae adborth cadarnhaol ynghylch Canllawiau Statudol ADUS wedi dod i law gan un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol:

*Rydym yn teimlo bod y canllawiau statudol yn arbennig o ddefnyddiol o ran darparu'r manylion ychwanegol angenrheidiol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth, nad oeddent o bosibl wedi'u cynnwys yn y canllawiau blaenorol ar Adolygiadau Ymarfer Plant / Adolygiadau Ymarfer Oedolion.*

*Mae'r canllawiau yn darparu gwybodaeth fwy pendant ynglŷn â rhannu gwybodaeth, gan ei gwneud hi'n haws i rai o'n partneriaid ddeall eu rhwymedigaeth o ran hyn. Yn y canllawiau blaenorol, roedd hyn ychydig yn llai clir gan felly achosi ychydig o bryder ymysg partneriaid.*

*Er enghraifft, lle rydym wedi cyfeirio at rannu gwybodaeth mewn Cylch Gwaith Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) penodol, pan wnaeth tîm cyfreithiol lleol groesgyfeirio hyn, roeddent yn hapus â'r eglurder a ddarperir yn y canllawiau.*

Cysylltwch â'r Hwb Cydgysylltu os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar y Canllawiau Statudol.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

## Hyfforddiant

Yn ogystal â'r hyfforddiant deuddydd a'r Sesiynau Rhwydwaith Cymorth chwarterol, mae Adolygwyr a Chadeiryddion hefyd bellach yn gallu manteisio ar sesiynau mentora. Mae'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi'u hyfforddi er mwyn rhannu heriau neu fynd i'r afael ag anawsterau, a hynny ar y cyd â chydweithwyr profiadol eraill a all helpu.

## Arferion Da

Yn y Gogledd, mae cyfarfod penodol o'r Is-grŵp Hyfforddiant Diogelu wedi'i drefnu i ddatblygu ymateb i'r themâu sy'n dod i'r amlwg o atgyfeiriadau ac adolygiadau ADUS sy'n mynd rhagddynt.

---

Yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Abertawe, mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgorffori dysgu yn dilyn cyhoeddi ADUSau drwy gynnal sesiynau agored a myfyriol gyda thimau y mae'r canfyddiadau yn effeithio arnynt. Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn cysylltu â'r rhai sy'n ymgymryd â'r darn hwn o waith i lunio canllawiau arferion da i'w defnyddio gan asiantaethau ledled Cymru.